**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gorslas**
**Heol Y Llew Du**
**Gorslas**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gorslas ym mhentref Gorslas, rhyw ddeg milltir o dref Gaerfyrddin, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i chwmpas.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn chwe dosbarth. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, Cymraeg yw cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 111 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ac mae'r niferoedd yn dal i godi. Mae tua 28% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 20% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n is na'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 31% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn ddatganiad o addysg ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Tachwedd 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gorslas yn 2013-2014 yw £3,527. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Gorslas yn safle 66 o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- medrau llafar disgyblion yn datblygu'n fuan iawn drwy'r ysgol;
- safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn dda;
- ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar;
- darpariaeth effeithiol i helpu disgyblion a grwpiau sydd ag angen cymorth ychwanegol; a bod
- ansawdd yr addysgu yn dda.

Er hynny:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig y mwyafrif o ddisgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;
- mae safonau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn anghyson;
- mae safonau sillafu ac atalnodi'r mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywio;
- mae cyflwyniad gwaith y mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2 yn aml yn flêr ac yn ddi-raen; ac
- nid yw'r gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion mwy galluog yn ddigon da.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth gadarn sydd yn seiliedig ar godi safonau;
- yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn cydweithio'n dda fel tîm;
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn dylanwadu'n effeithiol ar y cynllun datblygu;
- tystiolaeth o welliant yn ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad; a bod
- y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella safonau sillafu, atalnodi a chyflwyniad gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cysoni safonau rhifedd yng nghyfnod allweddol 2

A4 Mireinio’r ddarpariaeth i ddatblygu uwch fedrau ieithyddol y disgyblion mwyaf galluog yng nghyfnod allweddol 2

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon, yn rhannu syniadau ac yn cyfrannu'n llwyddiannus mewn trafodaethau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau ac yn ymateb i gwestiynau yn briodol yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae safon llafaredd Cymraeg a Saesneg yn dda ac yn un o gryfderau'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dysgu strwythur brawddegau a geirfa Gymraeg yn gyflym, a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd. Mae'r disgyblion yn adeiladu'n dda ar hyn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, daw llawer ohonynt yn hyderus i gynnal sgwrs gydag oedolion yn ogystal â'u cyfoedion yn y ddwy iaith.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos eu bod yn mwynhau darllen. Maent yn darllen yn glir ac yn rhugl, ac mae llawer yn trafod llyfrau yn frwdfrydig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn medru darllen ar goedd yn addas yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi, ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Nid yw'r disgyblion mwy galluog yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau ysgrifennu'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Gallant strwythuro eu syniadau yn glir gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau, a dangosant ddealltwriaeth gadarn o atalnodi. Caiff y medrau hyn eu datblygu ymhellach wedyn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu'n annibynnol, ac yn estynedig, gan ddefnyddio geirfa eang yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae safonau sillafu ac atalnodi yn amrywio ac nid yw'r disgyblion bob amser yn cyflwyno eu gwaith yn daclus. Er bod cynnydd i'w weld o ran hyd ac ansawdd y gwaith ar draws y cyfnod, prin yw'r enghreifftiau da o ysgrifennu estynedig i ystod gynyddol o bwrpasau. Nid yw'r disgyblion mwy galluog yn ymestyn eu doniau ysgrifennu.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws ystod eang o gysyniadau mathemategol o fewn yr ardaloedd dysgu. Mae dilyniant a chynnydd amlwg yn y medrau drwy gydol y Cyfnod. Er bod y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu defnyddio eu medrau mathemategol i ddatrys problemau, anghyson yw'r darlun ar draws y cyfnod. Nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu a'r pynciau.

Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un ohonynt yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol mewn gwersi hanes, daearyddiaeth a gwyddoniaeth. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y ddwy flynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uwch ac mewn datblygiad mathemategol o'r 25% isaf i'r 50% is. Roedd perfformiad y disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 yn y 50% is o blith ysgolion tebyg yn 2012 ac yn y 25% isaf yn 2013 yn y ddau faes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, o'r 25% uchaf i'r 25% isaf. Yn ystod yr un cyfnod mae perfformiad y disgyblion mwy abl ar lefel 5 wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn Saesneg ac o'r 25% isaf i'r 50% is yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae'r bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Wrth i ddisgyblion gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent oll yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Mae hyn yn arwain at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae gan ddisgyblion ymroddiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft drwy ofalu am blant ieuengach ar y buarth. Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn gydwybodol ac mae'n ddylanwad cryf ar fywyd a chwricwlwm yr ysgol. Eleni, ymatebodd y llywodraethwyr a'r sir yn gadarnhaol i awgrymiadau'r cyngor y dylid creu dosbarth ychwanegol ar dir yr ysgol. Yn yr un modd, mae'r Grŵp Gwyrdd yn dylanwadu'n gryf ar elfennau amgylcheddol o fewn a thu allan i'r ysgol.

Mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar ac mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol nawr yn y 50% uchaf. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion mwyafrif y disgyblion ac yn gwneud defnydd priodol o orchmynion pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae timau athrawon yr ysgol ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi cyflawni gwaith cychwynnol buddiol yn llunio polisïau a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau yn unol â gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio wedi cael digon o effaith o ran sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion, yn arbennig y rhai mwy galluog, i ddefnyddio'r medrau ar y lefel briodol yn eu gwaith.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr â'r ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio trwy'r profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm ac yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o agweddau ar hanes a daearyddiaeth Cymru. Yn yr un modd, mae'r sylw i chwedloniaeth Cymru a thraddodiadau megis dathlu'r Calan yn meithrin ymwybyddiaeth briodol o ddiwylliant Cymreig.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer galluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd. Mae unedau penodol o waith yn cynyddu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, gyda chyswllt buddiol rhwng yr ysgol ag ysgol yn Kenya ac Uganda.

**Addysgu: Da**

Mae gwersi yn cynnwys amcanion clir sy'n briodol i oedrannau a galluoedd y disgyblion, ac maent yn symud ar gyflymder addas. Mae bron pob un o'r staff yn dangos perthynas weithio dda gyda disgyblion, ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Defnyddia'r athrawon ystod o adnoddau yn dda, a defnyddiant staff cymorth yn effeithiol i helpu unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae'r athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol sy'n annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith bob amser yn ddigon gwahaniaethol ar gyfer pob gallu, ac nid yw staff yn herio disgyblion mwy galluog yn gyson.

Mae systemau asesu a chymedroli effeithiol gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'r drefn hon er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen. Mae system dracio gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n gadarnhaol ac mae cysondeb mewn dulliau marcio drwy'r ysgol gyfan. Mae athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i bennu targedau ar gyfer gwella yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn

canolbwyntio ar eu gwaith ac yn ymwybodol o sut i'w wella. Defnyddir strategaethau fel bawd i fyny, goleuadau traffig a thaflenni hunanasesu yn effeithiol i hyrwyddo hyn.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau ysgrifenedig priodol yn flynyddol i'r rhieni ar gynnydd eu plant sy'n cynnwys argymhellion clir ar sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach. Trwy weithgareddau corfforol yn ystod y dydd ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd.

Mae disgyblion yn dysgu sut i gadw'n ddiogel ac mae strategaethau effeithiol i annog ymddygiad da. Mae'r ysgol yn rhoi cyfres o fesurau cadarn ar waith i wella presenoldeb sy'n gostwng lefelau absenoldeb parhaus ac anawdurdodedig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy ddarparu profiadau addas, fel codi arian ar gyfer plant llai ffodus ac annog disgyblion i fynegi eu teimladau bob bore. Mae ymwelwyr yn cyfrannu'n fuddiol at y ddarpariaeth hon hefyd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni, yn ôl yr angen. Mae staff yn sicrhau bod y cymorth allanol a gafwyd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau a lles disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau a phrofion yn ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy. Mae systemau effeithlon ar waith i fonitro ac asesu cynnydd disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol a theimla pob plentyn ei fod yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle cynigir mynediad cyfartal at addysg i bob disgybl. Mae hyn yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn sail i'w hymrwymiad i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud ei orau, yn dangos parch, yn cael ei drin yn deg, yn helpu'i gilydd ac yn hapus. Mae pob aelod o'r staff yn hyrwyddo cynhwysiant yn effeithiol. Cynigia'r athrawon gyfleoedd mynych i ddisgyblion ddangos gofal ac ystyriaeth at rai eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau goddefgar, lle mae'r staff a'r disgyblion yn teimlo'n rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddu.

Mae'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion, er nad oes toiledau ar gyfer y rhai ag anableddau corfforol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, a bod lefel y glendid yn uchel. Gwna'r staff ddefnydd da o'r

gofod sydd ar gael, ac mae arddangosfeydd lliwgar o ansawdd da yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol. Mae'r man awyr agored diddorol yn adnodd dysgu gwerthfawr iawn. Mae disgyblion, staff a rhieni yn gwneud defnydd arbennig o dda o ardal yr ardd i gynorthwyo dealltwriaeth disgyblion o fyw'n iach. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae wedi llwyddo i ddatblygu ysbryd cynhwysol trwy sicrhau cyfle i bawb gael mynegi barn am waith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth a'r dirprwy ddisgwyliadau uchel o'r staff a disgyblion, ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei threfnu a'i rheoli'n dda. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ffocws clir ar godi safonau, ac maent yn defnyddio data'n dda i fonitro a herio perfformiad yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae pob aelod o staff yn rhannu diben cyffredin ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac maent yn ymgymryd â nhw yn gydwybodol ac yn drylwyr. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd, yn rhannu arfer dda ac yn cyfrannu'n briodol at gynllunio strategol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion statudol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wybodus ac yn mynychu digwyddiadau hyfforddi. Mae'r cadeirydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn gadarn am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir ganddi ac yn monitro a rheoli'r cyllid yn ofalus.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn ffocws pwysig yn y cynllun datblygu ysgol bresennol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol a pha mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd o ganlyniad i weithdrefnau monitro a hunanarfarnu trylwyr. Maent yn seilio'u barnau ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol a dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad cyfoes, gan gyfeirio'n benodol at effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gofyn am farn disgyblion a rhieni yn systematig ac mae'n gweithredu yn unol â'u hawgrymiadau, pan fo'n briodol, i roi gwelliannau ar waith. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno noson ymgynghori i rieni ac athrawon yn ddiweddar ar ddechrau'r

flwyddyn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob athro'n asesu eu perfformiad eu hunain hefyd er mwyn gwella safonau a darpariaeth.

Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda, gan arwain at godi safonau erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r adroddiad hunanarfarnu manwl yn rhoi darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Er hynny, nid yw'r adroddiad bob amser yn ddigon arfarnol. Mae'r adroddiad yn cynnwys cysylltiadau addas â'r cynllun datblygu ysgol, sy'n amlinellu blaenoriaethau perthnasol a hylaw ar gyfer gwella a deilliannau mesuradwy lle bo'n briodol. Mae'r cynllun yn nodi'r adnoddau angenrheidiol, y graddfeydd amser a'r staff gofynnol yn realistig i sicrhau bod y blaenoriaethau yn gyflawnadwy. Serch hynny, mae nifer y blaenoriaethau'n cynnig cryn her a sialens i'r ysgol i'w cyflawni o fewn amserlen blwyddyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae cyswllt cryf gyda rhieni sy'n gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys codi arian sylweddol bob blwyddyn i ychwanegu at offer a chyfarpar.

Mae'r cysylltiadau niferus gyda'r gymuned yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion fel adfywio ardal Llyn Llech Owain. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol o sawl ffynhonnell gymunedol ac mae'r arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol gyswllt da gyda'r cylch meithrin ac mae aelod o'r staff yn cynnal Clwb Iaith a Chwarae er mwyn anwytho plant a rhieni newydd. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol iawn ac yn gymorth i ddisgyblion i drosglwyddo'n hyderus i'r dosbarth meithrin.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus iawn gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau pontio effeithiol sy'n sicrhau trosglwyddo esmwyth. Mae'r cydweithrediad agos sydd rhyngddynt yn cael effaith gadarnhaol ar staff a disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i gynllunio ar y cyd, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae gweithgareddau safoni a chymedroli rhwng ysgolion wedi bod yn broses gadarnhaol ac wedi cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhoi cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau dysgu, ac mae'n manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r ddarpariaeth.

Mae trefniadau rheoli perfformiad pwrpasol ar waith ar gyfer athrawon. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant addas sy'n cael ei drefnu ar sail anghenion unigolion a

blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Caiff gwariant yr ysgol ei fonitro'n gyson gan y pennaeth a'r llywodraethwyr.  Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei defnyddio'n ofalus gan gyfrannu'n briodol tuag at wella safonau a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau.  Mae'r defnydd da o grantiau, a chyfraniad ffrindiau'r ysgol a'r rhieni, yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau.

Nid oes ond ychydig o rwydweithiau pwrpasol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill.  Serch hynny, mae staff wedi ymweld ag ysgolion eraill i weld arfer dda mewn agweddau'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r ymweliadau hyn wedi cael effaith bositif ar ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen ac ar gyraeddiadau ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn Y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen ac ar y deilliant disgwyliedig mewn medrau iaith, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu ymhob maes.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn mewn medrau iaith a phersonol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2013, roedd y canran sy'n cyflawni ar lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn Saesneg ac yn is o lawer yn y Gymraeg a mathemateg.

Dros gyfnod o bum mlynedd, yn gyffredinol, mae'r merched wedi perfformio'n well yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r bechgyn yn well na'r merched ar y lefelau uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uwch ac mewn datblygiad mathemategol o'r 25% isaf i'r 50% is. Roedd perfformiad y disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 yn y 50% is o blith ysgolion tebyg yn 2012 ac yn y 25% isaf yn 2013 yn y ddau faes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'r 25% uchaf i'r 25% isaf. Yn ystod yr un cyfnod mae perfformiad y disgyblion mwy abl ar lefel 5 wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn Saesneg, ac o'r 25% isaf i'r 50% is yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 62 | 61<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 62 | 61<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 62 | 58<br>94% | 4<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 62 | 59<br>95% | 3<br>5% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 62 | 58<br>94% | 4<br>6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 29 | 19 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 23 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 29 | 21 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 17 | 10 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 29 | 12 | 14 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 41% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 30 | 18 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 37% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 29 | 21 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 16 | 10 | 1 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 36% | 4% | 4% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 20 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 67% | 27% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 30 | 19 | 11 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 29 | 21 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 27 | 17 | 6 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 63% | 22% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 18<br>60% | 8<br>27% | 4<br>13% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 29 | 20<br>69% | 8<br>28% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 27 | 15<br>56% | 9<br>33% | 2<br>7% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 18<br>60% | 9<br>30% | 1<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 24 | 12<br>50% | 7<br>29% | 1<br>4% | 1<br>4% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 19<br>66% | 8<br>28% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 19<br>68% | 7<br>25% | 2<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Beverley Owen | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.